O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1629 (Cy. 208)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Cyffordd Marish i Gylchfan Dderw, i'r De o Lys-wen, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*21 Mehefin 2012*
Yn dod i rym	*1 Gorffennaf 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Parc Glan-wysg (Crucywel) – Llys-wen (yr A479) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Gorffennaf 2012. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Cyffordd Marish i Gylchfan Dderw, i'r De o Lys-wen, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 08:00 o'r gloch ar 1 Gorffennaf 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;